

# Polisi Iaith Gymraeg

## Crynodeb Gweithredol

### Ynghylch Maes Awyr Caerdydd

Maes Awyr Caerdydd yw maes awyr cenedlaethol Cymru a phorth allweddol i'r DU, yn croesawu dros 1.58 miliwn o deithwyr y flwyddyn.

Mae dros 50 o lwybrau uniongyrchol ar gael o Faes Awyr Caerdydd a 900+ o gyrchfannau cysylltiol ychwanegol ar gael drwy ganolfannau allweddol eraill. Mae Maes Awyr Caerdydd yn gyfrannwr allweddol i'r economi leol, gan gynnal 1,900 o swyddi yn ymwneud ag awyrennu a gyrru dros £163m o fudd economaidd uniongyrchol i'r rhanbarth.

### Yr iaith Gymraeg: Ein gweledigaeth

Fel maes awyr cenedlaethol Cymru, maes awyr y brifddinas a phorth i'r Deyrnas Unedig, mae Maes Awyr Caerdydd yn wirioneddol falch o'i hunaniaeth Gymreig. Mae creu diwylliant gwaith a phrofiad i'r cwsmer sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i Gymru a'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o'n brand.

Rydym yn falch o gael cynrychioli Cymru ac yn gweld yr iaith Gymraeg yn gyfle i gryfhau ein busnes. Yn ogystal, rydym yn adnabod y rhan gynhenid y gallwn ei gymryd drwy gefnogi a hyrwyddo yn weithredol y defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gydol taith y cwsmer.

Ers i Lywodraeth Cymru gymryd perchnogaeth yn 2013, buom ar daith weddnewidiol gan ganolbwyntio'n bennaf ar ychwanegu mwy o lwybrau, mwy o gapasiti a chynyddu nifer y teithwyr er mwyn sicrhau busnes cynaliadwy i'r maes awyr. Yn y flwyddyn ariannol hon - 2019/20 - gwelwn bwyslais o'r newydd ar ein tîm a'n cwsmeriaid a bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei hymgorffori yn y strategaeth gyffredinol ym mhob man cyswllt posibl. Mae'r Maes Awyr wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i bob cwsmer, hyd yn oed y rhai na allant siarad yr iaith ond sy'n awyddus i weld a chlywed y Gymraeg, ac i roi'r cyfle i deithwyr i gyfathrebu â'r maes awyr drwy gyfrwng y Saesneg neu'r Gymraeg.

Gyda chefnogaeth Comisiynydd yr Iaith Gymraeg, mae'r ddogfen hon yn nodi ein darpariaeth gyfredol ar gyfer yr iaith Gymraeg a nifer o amcanion realistig, cyflawnadwy y byddwn yn ceisio eu cyflawni dros y flwyddyn ariannol 2019/20; gan hefyd ganolbwyntio ar ein cynlluniau uchelgeisiol i ddarparu busnes maes awyr ffyniannus a chynaliadwy i Gymru.



Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu i gadw eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?	Sylwadau
<p><b>Wyneb yn wyneb</b> Gall ymwelwyr wneud cais i siarad ag aelod o staff sy'n siarad Cymraeg</p>	<p>Cynnal archwiliad o sgiliau iaith Gymraeg ar draws y busnes er mwyn deall lefelau ymwybyddiaeth cyfredol ymhlith timau</p> <p>Cyrchu eitemau hyrwyddo i'w defnyddio drwy'r derfynfa</p>	<p>Cydlynnydd Hyfforddi</p> <p>Marchnata</p>		<p>Holwyd 'Learn Welsh' ar 26/02/2019 yn ôl cyfarwyddyd Comisiynydd yr iaith Gymraeg</p> <p>Trafodwyd gyda Siwan Iorwerth ar 28 Mawrth</p> <p>Derbyniwyd eitemau brand.</p>
<p><b>Dros y ffôn</b> Mae pob swyddog yn cynnig cyfarchiad dwyieithog. Os nad ydynt yn medru'r Gymraeg, byddant yn cynnig trosglwyddo'r alwad i swyddog sy'n medru'r Gymraeg</p>	<p>Diweddarau'r system ffôn bresennol i un gyda dewislen o opsiynau dwyieithog</p>	<p>TG</p>	<p>Diwedd Ebrill 2019</p>	<p>Cyfarfod cyntaf 20.03.2019, cytunwyd ar sgript ddiwygiedig</p>
<p><b>Anfon llythyrau ac e-byst</b> Rydym yn cyfathrebu'n ddwyieithog ar brosiectau ac ymgyrchoedd penodol, ond nid ar bob achlysur.</p>	<p>Staff sy'n rhugl i addasu eu e-llofnod i gynnwys logo Siarad Cymraeg</p> <p>Staff sy'n rhugl i gyfathrebu'n weithredol drwy e-bost yn Gymraeg pan yn addas</p>	<p>Dylunydd Graffig / TG</p> <p>Pawb</p>	<p>Diwedd Ebrill 2019</p> <p>Parhaus</p>	
<p><b>Ymateb i lythyrau ac e-byst</b> Rydym yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth Gymraeg y byddwn yn ei dderbyn. Gall hyn olygu oedi os bydd angen defnyddio cyfieithydd proffesiynol.</p>	<p>Paratoi proses adborth i'r cwsmer sy'n ffactoreiddio'r raddfa amser angenrheidiol i gyfieithu ymatebion gan ddefnyddio gwasanaeth proffesiynol</p>	<p>Gr p llywio Adborth Cwsmer</p>	<p>Diwedd BA 19/20</p>	
<p><b>Datganiadau i'r wasg</b> Cyhoeddir ein datganiadau i'r wasg yn ddwyieithog gan amlaf ond, mewn rhai achosion pan fydd angen datganiad brys, mae'n bosibl y byddwn yn ei gyhoeddi yn Saesneg yn gyntaf, a'r fersiwn Gymraeg i ddilyn.</p>	<p>Cynnal archwiliad o adran newyddion y wefan ac anfon cyswllt â chyhoeddiadau hanesyddol CWL at wasanaeth cyfieithu proffesiynol</p> <p>Datganiadau rhagweithiol i'r wasg a gyhoeddir ar ran CWL i'w cyhoeddi'n ddwyieithog</p>	<p>Marchnata</p> <p>Marchnata</p>	<p>Diwedd Ch1</p> <p>Ar unwaith</p>	
<p><b>Cyfweliadau gyda'r cyfryngau</b> Bydd y maes awyr yn ceisio darparu cyfweliadau gyda'r cyfryngau yn y Gymraeg gan aelodau o staff sy'n medru'r Gymraeg sydd wedi'u hyfforddi ar gyfer y cyfryngau yn ôl y galw ac os bydd hynny'n addas</p>	<p>Sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn derbyn hyfforddiant rheolaidd ar gyfer y cyfryngau</p> <p>Darparu cyfweliadau rhagweithiol gyda'r cyfryngau os yn bosibl i ymarfer sgiliau gyda'r cyfryngau ac i wella delwedd gyhoeddus y maes awyr</p>			

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu i gadw eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?	Sylwadau
<p><b>Cyfryngau Cymraeg</b> Bydd y maes awyr yn parhau i adeiladu ar y berthynas gref a sefydlwyd gyda sianelau'r cyfryngau Cymraeg</p>	<p>Bydd y maes awyr yn cynnig yr un gwasanaethau i'r cyfryngau Cymraeg ac i'r rhai Saesneg o ran cyfweiliadau, datganiadau, cyfleoedd ffilmio - masnachol neu arall, a bydd yn annog cwmnïau sy'n bartneriaid megis cwmnïau hedfan a threfnwyr teithiau i ystyried opsiynau cyfryngau Cymraeg wrth gydlyn cynlluniau Cysylltiadau Cyhoeddus a marchnata.</p>			
<p><b>Arwyddion</b> Yn Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg</p>	<p>Cynnal prosiect adolygu arwyddion, gan sicrhau amlygrwydd cyfartal i'r Gymraeg trwy gydol taith y cwsmer.</p>	<p>Masnachol</p>	<p>Diwedd Mawrth 2019</p>	<p>Arwyddion Cymraeg wedi'u cyfieithu'n broffesiynol ac wedi'u gwirio'n fewnol, nawr yn paratoui i'w gosod</p>
<p><b>Gwisg staff</b> Yn Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg</p>	<p>Canfod cyflenwr gwisg newydd a phroses gymeradwyo</p> <p>Adolygu brandio ar bob gwisg ledled y busnes, gan sicrhau defnydd cywir o'r Gymraeg yn y brandio</p>	<p>Penaethiaid Adrannau / Dylunydd Graffig</p> <p>Dylunydd Graffig</p>	<p>Diwedd Mawrth 2019</p>	<p>Cyflenwr newydd wedi'i ganfod</p>
<p><b>Gwefan</b> Mae'r wybodaeth statig ar ein gwefan yn ddwyieithog ond mae unrhyw gynnwys ychwanegol yn dibynnu ar iaith y swyddog sy'n paratoui'r wybodaeth.</p>	<p>Cynnal prosiect i ddiweddarau a gwella'r wefan bresennol</p>	<p>Marchnata</p>	<p>Diwedd Ch 1</p>	<p>Prosiect gweithdy ac ymchwil defnyddwyr wedi'i gynllunio</p>
<p><b>Cyfryngau Cymdeithasol</b> Rydym yn paratoui negeseuon Saesneg, ond os bydd rhywun yn gofyn cwestiwn yn y Gymraeg, rydym yn ymdrechu i ddarparu ymateb yn Gymraeg.</p>	<p>Paratoui cyfres o destunau dwyieithog ac asedau ar gyfer defnydd rhagweithiol – problemau tywydd garw difrifol, digwyddiadau mawr, problemau teithio difrifol</p>	<p>Marchnata</p>	<p>Diwedd Ch 1</p>	
<p><b>Cyfarfodydd cyhoeddus a digwyddiadau</b> Pwyllgor Ymgynghorol y Maes Awyr</p>	<p>Adolygu fformat Pwyllgor Ymgynghorol y Maes Awyr ac asesu'r angen i gynnwys y Gymraeg</p>	<p>Cyfarwyddwyr, Cynorthwydd Gweithredol a Marchnata</p>		
<p><b>Darparu cyrsiau hyfforddi</b> Ar hyn o bryd ni allwn gynnig gwasanaeth Cymraeg</p>	<p>Trefnu cyfarfod gyda'r Cydlynnydd Hyfforddi i archwilio'r cyrsiau hyfforddi a'r cyllido sydd ar gael</p>	<p>Marchnata/ Profiad y Cwsmer/ Cydlynnydd Hyfforddi</p>	<p>Diwedd Ch 1</p>	

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu i gadw eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?	Sylwadau
<p><b>Iaith Gwaith (Working Welsh)</b> Mae rhai swyddogion yn gwisgo bathodyn neu laniard iaith Gwaith ond nid ydym yn arddangos unrhyw bosteri</p>	Sicrhau fod siaradwyr Cymraeg yn gwisgo bathodyn bob amser	Marchnata	Diwedd Ebrill	
<p><b>Recriwtio staff</b> Rydym yn asesu os yw'r Gymraeg yn sgil angenrheidiol ar gyfer pob swydd newydd</p>	Gwneud ymdrech i recriwtio siaradwyr Cymraeg, drwy ychwanegu hynny fel sgil dymunol ym mhob swydd-ddisgrifiad	Adnoddau Dynol	Ar unwaith	
<p><b>Hysbysebu swyddi gwag</b> Mae ein hysbysebion wedi'u hysgrifennu yn Saesneg.</p>	Sicrhau fod pob swydd wag fewnol yn cael eu hysbysebu yn Saesneg ac yn Gymraeg	Adnoddau Dynol	Ar unwaith	
<p><b>Ymwybyddiaeth o iaith</b> Nid oes proses ffurfiol yn bod ond mae dogfennau ar gael pe bai swyddogion am eu darllen.</p>	Cael gwybodaeth berthnasol gan Gomisiynydd y Gymraeg	Rhiannon Jenkins	Diwedd Ebrill 2019	Cyfarfod gyda Chomisiynydd y Gymraeg ar 5 Ebrill 2019
<p><b>Sgiliau iaith</b> Rydym yn ymwybodol fod rhai swyddogion yn siaradwyr Cymraeg</p>	Cynnal archwiliad sgiliau sylfaenol ledled y busnes			Gweler 1.1
<p><b>Dysgu a defnyddio'r Gymraeg</b> Fel rhan o werthuso swyddi blynyddol, mae ein swyddogion yn cael cynnig gwersi i wella'u sgiliau Cymraeg neu i ddysgu Cymraeg. Mae'r sefydliad yn talu am y gwersi ac yn darparu amser dysgu yn ystod oriau gwaith.</p>	Archwilio'r opsiynau hyfforddi	Cydlynnydd Hyfforddi	Diwedd Ch 1	

**cardiff airport**   
maes awyr caerdydd

[cardiff-airport.com](http://cardiff-airport.com)

 [@Cardiff\\_Airport](https://twitter.com/Cardiff_Airport)  [CardiffAirport](https://www.facebook.com/CardiffAirport)